# DISGRIFIAD RÔL
# Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd Partneriaeth Genomeg Cymru

Partneriaeth Genomeg Cymru
Genomics Partnership Wales

---

## Cefndir

**Genomeg** yw astudio holl genynnau person (y genom), gan gynnwys rhyngweithio rhwng y genynnau hynny â'i gilydd a chydag amgylchedd y person. **Geneteg** yw astudio genynnau ac etifeddiad. Mae'r ddau yn chwarae rhan gynyddol bwysig o ran gwella iechyd personol ac iechyd y cyhoedd, gan gyfrannu at ddiagnosio, atal, trin a goruchwylio clefydau.

Fe wnaeth strategaeth gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer genomeg, a lansiwyd yn 2017, drawsnewid darpariaeth profion geneteg a genomeg yn GIG Cymru a gosod sylfaen gref. Mae strategaeth y DU yn 2020 (*Genome UK: the future of healthcare*) a strategaethau dilynol, wedi tynnu sylw at rôl gynyddol bwysig genomeg mewn gofal iechyd ac i economi'r DU. Sicrhaodd *Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru 2022-2025* fod y datblygiadau parhaus mewn genomeg yn cyrraedd cleifion Cymru i wella gofal; mae'r cynllun dilynol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Sefydlwyd **Partneriaeth Genomeg Cymru** i gynrychioli nifer o sefydliadau, arbenigwyr a disgyblaethau sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, sydd gyda'i gilydd yn anelu at drawsnewid y gwasanaethau genomig yng Nghymru er budd cleifion yng Nghymru.

Sefydlwyd **Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd** yn 2019. Gwnaethom recriwtio cleifion ac aelodau o'r cyhoedd gyda phrofiadau amrywiol yn ymwneud â phrofion genetig a genomeg, gan roi diwrnod llawn o hyfforddiant ar gysyniadau geneteg a genomeg. Nod y grŵp hwn yw cynrychioli dinasyddion Cymru wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella profiad cleifion ac yn y pen draw, iechyd a lles ein poblogaeth.

---

## Dull Cynnwys Cleifion

Mae ein dull Cynnwys Cleifion wedi'i ddatblygu er mwyn:

- Dangos ymrwymiad i weithio mewn modd agored a thryloyw gyda chleifion a'r cyhoedd, gan ddefnyddio eu profiadau ar y cyd i lunio ac ychwanegu gwerth at waith Partneriaeth Genomeg Cymru a gwasanaethau genomeg yng Nghymru yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi ein dull cynnwys cleifion a'r cyhoedd ac adeiladu ar y sylfeini cryf presennol, byddwn yn:

- Datblygu gwybodaeth gyhoeddus i hyrwyddo uchelgeisiau genomeg.
- Sefydlu ein Bwrdd Seinio ymhellach fel cenhadon cymunedol i godi proffil genomeg a sut y bydd unigolion yn elwa.
- Parhau gyda'n gweithgareddau cynnwys cleifion a'r cyhoedd o fewn y gwaith darparu genomeg, a'u datblygu.
- Cydnabod bod y materion a'r ffactorau sy'n ymwneud â geneteg a genomeg yn gymhleth. Rydym am weithio gyda chleifion ac aelodau o'r cyhoedd i esbonio pethau mewn ffordd glir a syml, gan rymuso dinasyddion Cymru i ddeall mwy am yr hyn y gall genomeg ei olygu iddynt.

---

## Cyfle Recriwtio

Hoffem recriwtio carfan newydd i ymuno â’r Bwrdd Seinio Cleifion a'r Cyhoedd hwn ac ehangu'r aelodaeth bresennol. Dyma'ch cyfle i lunio'r ffordd rydym yn siarad am geneteg a genomeg, ac i wella profiad pawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau genomeg glinigol a chyfleoedd ymchwil yng Nghymru. Rydym yn chwilio am unigolion sydd ag ystod eang o brofiadau – gwelwch fanylion y rôl isod. Bydd y Bwrdd Seinio yn parhau i weithio gydag aelodau eraill o Bartneriaeth Genomeg Cymru i sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn parhau wrth wraidd ein gwaith.

---

**Pynciau Ymgynghori**

Ymgynghorwyd â'r Bwrdd Seinio presennol ar bynciau amrywiol hyd yma gan gynnwys:

- Opsiynau ar gyfer cymryd caniatâd cleifion i ddefnyddio eu samplau/data genomeg ar gyfer ymchwil.
- Dylunio gwefan dda sydd â’r cynllun, y cynnwys a’r ymarferoldeb mwyaf addas.
- Ffyrdd o wella ardaloedd clinig a mannau aros yn y gwasanaeth genomeg.
- Dylunio a chyrchu ystyriaethau o safbwynt cleifion a'r cyhoedd ar gyfer lleoliad newydd arfaethedig y gwasanaethau genomeg.
- Cynnwys taflenni gwybodaeth a deunydd ategol arall ar gyfer apwyntiadau.
- Cynnwys y Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Genomeg yng Nghymru.
- Datblygu gwasanaethau digidol i gefnogi'r defnydd o genomeg ym maes gofal iechyd.
- Ystyriaethau penodol i gleifion wrth gyflwyno gwasanaethau genomeg newydd.
- Sut y gall rhaglenni eraill gyflwyno cynnwys cleifion a’r cyhoedd yn eu gwaith.
- Cynnwys ac ymagwedd ar gyfer cynhadledd fawr yn hyrwyddo pob agwedd ar genomeg.
- Cynnwys cyrsiau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu hystyried.
- Cynnwys Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru; sut y dylid datblygu cynnwys cleifion, egwyddorion cyffredinol y dylid glynu wrthynt a chyfleu'r Cynllun i gynulleidfa eang.

---

**Y Rôl**

**Cyfrifoldebau**

Fel aelod o'r Bwrdd Seinio, bydd gofyn i chi:

- Fynychu cyfarfod ymgynghori bob tri mis.
    - Bydd deunydd darllen i chi roi sylwadau arno a'i drafod yn ystod y cyfarfodydd yn cael ei gyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod.
    - Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithwir; unwaith y flwyddyn rydym hefyd yn cynnig cyfle i aelodau gwrdd wyneb yn wyneb

- Cymryd rhan mewn rhai ymgynghoriadau e-bost drwy gydol y flwyddyn mewn ymateb i geisiadau ad hoc a allai godi rhwng ymgynghoriadau chwarterol. Er enghraifft, efallai y byddwn am wirio geiriad datganiad i'r wasg gyda'r grŵp cyn ei gyhoeddi.
- Hyrwyddo cyfleoedd neu waith genomeg i'ch cysylltiadau/rhwydweithiau yn ôl y gofyn (rhoddir cyfarwyddyd clir).
- Cyflwyno eich profiadau eich hun o brofion genetig a genomeg, gan gynrychioli persbectif ehangach hefyd.

**Sgiliau a Rhinweddau**

Rydym yn chwilio am bobl sydd (naill ai'n bersonol neu fel gofalwr neu aelod o'r teulu) â phrofiad o unrhyw un o'r canlynol:

- Canserau etifeddol fel canser etifeddol y fron, y prostad, y coluddyn neu'r ofarïau.
- Cyflyrau prin gydag elfen genetig (e.e., Ffeibrosis Systig, Clefyd Huntington, Sglerosis Twberus, Anaemia'r Crymangelloedd).
- Anhwylderau Oedi Datblygiadol fel Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, X Fregus, Syndrom Down.
- Wedi derbyn neu wedi cael cynnig profion genetig ar gyfer diagnosis, triniaeth neu yn ystod beichiogrwydd.
- Wedi cymryd rhan mewn prawf meddygaeth fanwl neu 'bersonol', e.e. ar gyfer canser.
- Unrhyw ryngweithio â Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan.

Ac:

- Yn gallu lleisio barn mewn modd adeiladol, mewn amgylchedd grŵp.
- Yn gallu esbonio'n glir pam y gall rhai cyfathrebiadau beri emosiynau cryf, dryswch neu ansicrwydd.
- Yn gallu gwrando ar safbwyntiau eraill a'u parchu.
- Yn deall y bydd Partneriaeth Genomeg Cymru yn defnyddio'r mewnwelediad cyfunol a geir i wella a llunio ein gwaith ond efallai na fydd yn gallu gweithredu pob awgrym unigol y byddwch yn ei gyflwyno.

Nid oes angen y canlynol arnoch:

- Profiad gwyddonol neu ymchwil penodol; byddwn yn recriwtio yn seiliedig ar brofiad personol, felly nid ydym yn ceisio safbwyntiau proffesiynol.
- Profiad o siarad yn gyhoeddus neu hyfforddiant yn y cyfryngau.
- Gwybodaeth feddygol neu wyddonol sy'n ymwneud â genomeg – byddwch yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn ystod y broses sefydlu.

---

**Ymrwymiad Amser**

- **Pedwar cyfarfod chwarterol** drwy gydol y flwyddyn – bydd y rhain yn cael eu cynnal yn rhithiwr (drwy Zoom) neu wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, yn Abertawe neu yng nghanolbarth/gogledd Cymru. Bydd cyfarfodydd yn para tua chwe awr, gan gynnwys seibiannau rheolaidd
- **Paratoi ar gyfer cyfarfodydd** – byddwn yn anfon unrhyw ddogfennau a deunyddiau atoch o leiaf wythnos ymlaen llaw fel y gallwch eu darllen a'u hystyried cyn y cyfarfod. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaith paratoi gymryd mwy na dwy awr fesul cyfarfod.
- **Ymgynghoriadau e-bost/ymgynghoriadau penodol** – yn ôl y gofyn. Mae nifer a math yr ymgynghoriadau e-bost yn amrywio ac ni fydd angen i chi ddarllen llawer o ddeunydd. Efallai y cewch gyfle hefyd i fynychu cyfarfodydd ychwanegol ar bynciau penodol.
- **Sesiwn sefydlu a hyfforddi undydd** a fydd yn cael ei chynnal yn rhithiwr ddydd Mawrth 2 Gorffennaf 2025, cyn y cyfarfod ymgynghori a fydd yn cael ei gynnal yn rhithiwr ddydd Mercher 3 Gorffennaf 2025.

---

### Hyd y Cyfnod

Hyd y cyfnod fel aelod o'r Bwrdd Seinio yw **dwy flynedd**.

---

### Hyfforddiant a Chymorth

Ar ddechrau eich cyfnod ar y Bwrdd Seinio, byddwch yn derbyn y canlynol:

- **Diwrnod sefydlu a hyfforddi** a fydd yn trafod:
    - Gwybodaeth gyffredinol am Bartneriaeth Genomeg Cymru a'i sefydliadau partner i roi cyd-destun i'ch rôl chi a'ch helpu i ddeall ble mae eich lle chi yng ngwaith y rhaglen.
    - Gwybodaeth benodol am y Bwrdd Seinio; pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.
    - Gwybodaeth gefndir gyffredinol am genomeg a hyfforddiant perthnasol wedi'i deilwra lle bo angen.
    - Cyfle i gael eich mentora gan aelodau presennol o'r Bwrdd Seinio.
- **Cyswllt penodol** ym Mhartneriaeth Genomeg Cymru y gallwch gysylltu ag ef os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn, yn ystod neu ar ôl gweithgaredd.
- **Mynediad at adnoddau** a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am genomeg a chysyniadau cysylltiedig (e.e., rhestr termau, adnoddau dysgu ar y rhyngrwyd).
- Lle y bo'n briodol, **cysylltiad â gwahanol dimau** o fewn sefydliadau partner (e.e. Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, timau cyfathrebu).

---

### Treuliau

Mae taliad honorariwm ar gael i dalu am yr amser sydd ei angen i baratoi ar gyfer sesiynau ymgynghori a'u mynychu. Ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd yr holl gostau rhesymol ar

gyfer teithio, llety, arlwyo a chyfranogiad yn cael eu talu gan Bartneriaeth Genomeg Cymru yn unol â'n polisi, sy'n adlewyrchu canllawiau a gynhyrchwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer gweithgarwch cynnwys cleifion a'r cyhoedd tebyg. Bydd llety ac arlwyo yn cael eu trefnu gennym ni os bydd angen.

---

**Lleoliad**

Bydd cyfarfodydd ymgynghori chwarterol yn cael eu cynnal yn rhithiwr (drwy Microsoft Teams) neu wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd, yn Abertawe neu yng nghanolbarth/gogledd Cymru. Byddwn yn darparu manylion am leoliadau cyfarfodydd ymlaen llaw – bydd pob lleoliad yn hygyrch i'r rhai ag anghenion ychwanegol fel defnyddwyr cadeiriau olwyn, ac ati. Ar gyfer cyfarfodydd rhithwir, rhoddir manylion cysylltu ymlaen llaw.

---

**Cyfle Cyfartal**

Ym Mhartneriaeth Genomeg Cymru (PGC), rydym yn cynnwys pobl o bob cefndir, waeth beth fo'u hoedran, eu rhyw, eu hunaniaeth rhywedd, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu crefydd neu eu diwylliant. Yn y rôl hon, efallai y byddwch yn gweithio gyda grŵp amrywiol o bobl a bydd angen i chi gynrychioli safbwyntiau'r bobl hynny. Mae PGC yn fenter Cymru gyfan, ac felly rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r wlad, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg.

---

**Y Broses Gwneud Cais a Dethol**

- Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am fod yn aelod o'r Bwrdd Seinio hwn, cwblhewch y ffurflen Datganiad o Ddiddordeb gysylltiedig a'i chyflwyno i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru erbyn **31 Mai 2026**.
- Byddwn yn llunio rhestr fer o geisiadau ac yn gwahodd pobl sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol i drafodaeth rithwir anffurfiol; byddwn yn cysylltu â phawb sy'n gwneud cais erbyn **9 Mehefin 2025** i roi gwybod i chi a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer.
- Cynhelir trafodaethau rhithwir anffurfiol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **8 Mehefin 2026**. Byddwn yn eich hysbysu am ganlyniad y drafodaeth o fewn tri diwrnod gwaith.
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i sesiwn sefydlu, hyfforddi ac ymgynghori rithwir dau ddiwrnod ar **2 a 9 Gorffennaf 2026**. Mae eich argaeledd ar gyfer y sesiwn sefydlu a hyfforddi hon yn rhan o'r broses ddethol.
- Bydd sesiwn ymgynghori Bwrdd Seinio hefyd ar Hydref 2026, gyda'r dyddiadau ar gyfer mis Ionawr 2027 i'w cadarnhau o hyd.

---

**Manylion cyswllt Partneriaeth Genomeg Cymru:**


- D/O Nicholas O'Sullivan
- Partneriaeth Genomeg Cymru, Canolfan Iechyd Genomig Cymru, Parc Gwyddorau Bywyd Cardiff Edge, Longwood Drive, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7YU
- E-bost: genomicspartnershipwales@wales.nhs.uk
- Gwefan: https://genomicspartnership.wales/cy/